# Strategaethau mwy doeth o ran yr Hinsawdd mewn Ymarfer Nyrsio a Bydwreigiaeth - dogfen ganllawiau



**Dyddiad:** 20/02/2024
**Awdur/on:** Rhys Roberts
**Perchennog:** Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

# Cynnwys


**Rhagarweiniad** ........ 3

**Pwy ydym ni** ........ 5

- **Cynefino nyrsys** ........ 5
- **Arfarniad blynyddol** ........ 6
- **Cyflwyno hyfforddiant clinigol** ........ 7
- **Ailddilysu NMC** ........ 8

**Yr hyn rydym ni'n ei wneud** ........ 9

- **Cynlluniau achredu clinigol** ........ 9
- **Methodoleg gwella ansawdd (QI)** ........ 10
- **Asesiadau o'r effaith amgylcheddol** ........ 10

**Sut rydym ni'n gwneud hyn** ........ 12

- **Caffael cyflenwadau clinigol** ........ 12
- **Rheoli stoc yn gynaliadwy** ........ 13
- **Gweithio rhithwir** ........ 14
- **Crynodeb** ........ 14




## Rhagarweiniad

Mae newid hinsawdd wedi'i nodi fel y bygythiad unigol mwyaf i iechyd byd-eang, gan effeithio'n andwyol ar iechyd ein poblogaeth a chynyddu anghydraddoldebau iechyd ledled y byd. Cymru oedd y wlad gyntaf i ddatgan argyfwng hinsawdd cenedlaethol yn 2019 mewn ymgais i roi mwy o ffocws ar y cyd ar yr heriau sy'n cael eu hachosi gan newid hinsawdd. GIG Cymru yw un o brif allyrwyr carbon y sector cyhoeddus ac mae angen gweithredu ar y cyd ar frys i leihau ei ôl troed carbon a chefnogi gwell canlyniadau iechyd cyhoeddus. Mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021) yn nodi sawl menter i leihau allyriadau, gydag ymdrechion cychwynnol yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ei adeiladau, dulliau teithio a chaffael. Er bod hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, mae modd cyflawni mwy trwy ymarfer clinigol gwyrddach a darparu gofal iechyd mewn ffyrdd mwy gwyrdd.

Yn 2023, cynhaliodd Swyddfa Prif Swyddog Nyrsio Cymru brosiect Cynaliadwyedd Nyrsio ochr yn ochr â Rhaglen Argyfwng Hinsawdd HSS i archwilio a chynyddu cyfraniad nyrsys a bydwragedd tuag at gyflawni'r uchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero-net. Arweiniodd y gwaith at ganlyniadau cadarnhaol i'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth a nodwyd yr angen am weithredu ar y cyd gan yr ystod o wasanaethau sy'n darparu iechyd a gofal yma yng Nghymru. O ganlyniad, cyhoeddodd Penaethiaid Proffesiynau Llywodraeth Cymru ddatganiad sefyllfa ar y cyd, gan nodi cynaliadwyedd amgylcheddol fel blaenoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.

Fe wnaeth prosiect Cynaliadwyedd Nyrsio a Bydwreigiaeth nodi chwe argymhelliad i ysgogi gweithgarwch cynaliadwy o fewn teulu'r proffesiynau Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r Fframwaith Canllawiau yn cyd-fynd ag argymhelliad pedwar, sy'n ceisio ymgorffori egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy ym mhrosesau cyfredol GIG Cymru er mwyn cyflawni'r cyrhaeddiad mwyaf posibl heb roi rhagor o faich ar system sydd eisoes dan bwysau. Mae'r ddogfen hon yn cynnig enghreifftiau ymarferol o sut y gall cynaliadwyedd amgylcheddol fod yn rhan annatod o ddarparu gofal iechyd.

Nod y ddogfen hon yw darparu ychydig o enghreifftiau sy'n gallu ysgogi meysydd clinigol i ymgorffori egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy yn eu gweithrediadau presennol. Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i fagu hyder ac annog ymdrechion cychwynnol ar gyfer gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth wrth iddynt fabwysiadu cynaliadwyedd amgylcheddol fel elfen graidd o ymarfer nyrsio ac i fagu hyder yn y maes ymarfer hwn. Nid yw'r enghreifftiau a restrir yn y ddogfen hon yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol. Anogir sefydliadau a gwasanaethau clinigol i addasu'r enghreifftiau yn y ddogfen hon i weddu i'w hanghenion nhw, yn unol â gwybodaeth leol ar yr hinsawdd, mapio prosesau ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Dylid manteisio ar arbenigedd arweinwyr datgarboneiddio sefydliadol a hyrwyddwyr cynaliadwyedd i sicrhau bod y camau hyn yn cael eu mabwysiadu mewn ffordd sy'n ategu'r strategaeth datgarboneiddio sefydliadol a sicrhau bod yr holl gyfraniadau yn cael eu cydnabod.

Er bod y ddogfen hon chynllunio ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth, mae modd trosglwyddo'r egwyddorion ar draws y system iechyd a gofal. Dylid ystyried y ddogfen hon law yn llaw â fframweithiau arweiniol ategol eraill a allai helpu i ddarparu mesurau gwyrdd, fel Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru, Adnoddau ar gyfer Iechyd Cynaliadwy, pecyn cymorth AHP Cymru ar gynaliadwyedd a'r Pecyn Cymorth ar gyfer

Cyrff Cyhoeddus. Gofynnwyd am fewnbwn gan randdeiliaid allweddol ar draws byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a sefydliadau ategol i lywio'r mesurau a awgrymir yn y ddogfen hon.

Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro'n dair adran gyffredinol:

1. **Pwy ydym ni** - mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gefnogi nyrsys a bydwragedd ar lefel unigol i gymryd camau cynaliadwy;

2. **Yr hyn rydym ni'n ei wneud** – mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y gweithdrefnau a'r prosesau clinigol sy'n cael eu gwneud mewn gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth a all gefnogi gofal iechyd cynaliadwy;

3. **Sut rydym ni'n gwneud hyn** – mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut rydym ni'n gweithredu, gan gynnwys yr adnoddau ffisegol rydym ni'n eu defnyddio, a sut rydym ni'n rheoli'r adnoddau hynny.

## Pwy ydym ni

Mae gan y proffesiwn nyrsio a bydwreigiaeth hanes o gefnogi iechyd a lles drwy ymateb i anghenion ein poblogaeth.  Yn wyneb yr argyfwng hinsawdd sy'n creu’r bygythiad mwyaf i iechyd pobl, rhaid i nyrsys a bydwragedd hefyd ateb yr her hon trwy arddel arferion gofal iechyd mwy gwyrdd.

Fel y proffesiwn mwyaf (Senedd Cymru, 2023), mwyaf dylanwadol (Ipsos, 2022) yn GIG Cymru, gall nyrsys a bydwragedd chwarae rhan allweddol wrth ymgorffori egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy mewn ymarfer clinigol, a dylid eu hannog i wneud hynny ar bob cyfle.  Nyrsys a bydwragedd sy'n darparu gofal sydd yn y sefyllfa orau i nodi meysydd ymarfer y gellir eu gwella i fodloni egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy:

1. Atal afiechyd;
2. Hunanofal cleifion;
3. Llwybrau clinigol symlach;
4. Dewisiadau amgen carbon isel.

(Canolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy, 2023)

Mae'r adran hon yn darparu rhai enghreifftiau o sut y gall sefydliadau a rheolwyr alluogi eu nyrsys a'u bydwragedd i fod yn ymarferwyr gwyrdd ym mhopeth a wnânt, trwy godi ymwybyddiaeth, addysg, ac ymddygiadau cynaliadwy unigol. Yn ogystal â'r enghreifftiau hyn, caiff sefydliadau eu hannog i ystyried sut mae modd cefnogi unigolion i nodi a mynd i'r afael â meysydd ymarfer mwy ecogyfeillgar.




## Cynefino nyrsys

Mae rhaglenni cynefino yn ffordd o groesawu staff sydd newydd gael eu recriwtio gan ddarparu ymwybyddiaeth sylfaenol o strategaeth, diwylliant a pholisïau gweithredol y

sefydliad. Mae pob nyrs sy'n dechrau rôl glinigol fel gweithiwr newydd o fewn un o sefydliadau GIG Cymru yn dilyn proses sefydlu gorfforaethol. Gellir ategu hyn gan raglen gynefino leol, adrannol sy'n cynnig croeso wedi'i deilwra'n fwy i'r maes clinigol y bydd y nyrs yn gweithio ynddo.

Mae prosesau cynefino nyrsys yn rhoi cyfle da i dynnu sylw at yr effaith niweidiol y mae darpariaeth gofal iechyd yn ei chael ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac ymrwymiad y sefydliad i wella ei effaith ar yr hinsawdd.

Mae'r dulliau posibl o ddefnyddio'r broses sefydlu i annog gofal iechyd cynaliadwy yn cynnwys:

- ✓ Caniatáu amser i'r rhai sy'n bresennol gwblhau'r pecyn e-ddysgu *Cyflawni Sero Net yng Nghymru;*
- ✓ Cyflwyniad gan hyrwyddwr cynaliadwyedd lleol sy'n darparu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o waith lleol sy'n cael ei wneud yn y maes hwn;
- ✓ Amlinellu'r strategaeth sefydliadol tuag at ofal iechyd cynaliadwy a sut y gall gweithwyr gefnogi hyn yn eu hymarfer o ddydd i ddydd;
- ✓ Grymuso'r rhai sy'n bresennol i chwilio am ffyrdd o ddarparu gofal iechyd sydd o les i'r amgylchedd;
- ✓ Rheolwyr i ofyn i staff newydd ystyried sut y gallai eu hamgylchedd gwaith fod yn fwy ecogyfeillgar;
- ✓ Cyfeirio gweithwyr at adnoddau a all gefnogi camau gweithredu lleol ar yr hinsawdd e.e. grŵp gwyrdd lleol, Iechyd Gwyrdd Cymru, Centre for Sustainable Healthcare etc.

Argymhellir bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan o raglenni cynefino fel cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r maes pwnc pwysig hwn a darparu gwybodaeth sylfaenol ynghylch pa gamau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol agos. Dylai arweinwyr cynefino geisio cynnwys egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy mewn prosesau cynefino lle bynnag y bo modd ac os yw hynny'n ymarferol.

## Arfarniad blynyddol

Mae pob sefydliad GIG Cymru yn rhoi arfarniad blynyddol i bob gweithiwr fel dull strwythuredig o fyfyrio ar waith y flwyddyn flaenorol a chynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae strwythur a chynnwys arfarniad blynyddol yn amrywio rhwng sefydliadau, ond maen nhw'n cynnig potensial i drafod rôl y gweithiwr wrth hyrwyddo darpariaeth gofal iechyd cynaliadwy yn ei leoliad clinigol mewn maes pwnc sydd o ddiddordeb i'r unigolyn. Mae'r broses arfarnu yn darparu cyfle rheolaidd i arweinwyr clinigol rymuso eu gweithwyr a'u galluogi i weithredu mewn ffordd gynaliadwy, wrth gynnal trafodaethau rheolaidd am ofal iechyd mwy gwyrdd.

Dyma enghreifftiau o sut allai'r broses arfarnu gefnogi ymarfer cynaliadwy:

- ✓ Myfyrio ar gyflawniadau amgylcheddol y flwyddyn flaenorol a rôl y gweithiwr yn y rhain;
- ✓ Archwilio'r meysydd y mae'r gweithiwr yn teimlo y gellir eu targedu i leihau effaith carbon ymhellach;

- ✓ Nodi anghenion dysgu/datblygu a lefelau hyder y gweithiwr wrth gefnogi gofal iechyd cynaliadwy;
- ✓ Gosod amcanion sy'n cyfrannu at strategaeth gynaliadwyedd y sefydliad.

Mae sgyrsiau amlach am ofal iechyd cynaliadwy yn cynyddu hyder nyrsys i weithredu mewn ffordd gynaliadwy. Argymhellir bod rheolwyr yn cynnwys hyn yn eu dull arfarnu a bod sefydliadau'n ystyried rhoi adran bwrpasol ym ymwneud â chynaliadwyedd ar waith fel rhan o'r broses arfarnu er mwyn cryfhau'r ffocws ar egwyddorion cynaliadwy.

## Cyflwyno hyfforddiant clinigol

Mae Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru yn gosod cyfrifoldeb proffesiynol ar staff nyrsio ledled GIG Cymru i gynnal eu cymhwysedd clinigol eu hunain trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). I gefnogi hyn, mae darparu hyfforddiant clinigol ledled GIG Cymru yn arfer cyffredin, gyda staff yn mynychu hyfforddiant yn rheolaidd. Mae cynnwys yr hyfforddiant yn amrywio rhwng arbenigeddau clinigol a rhwng sefydliadau.

Mae sicrhau bod effaith amgylcheddol yr ymyrraeth glinigol a addysgir yn rhan o'r ddarpariaeth hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth ac yn darparu addysg i staff y gallant ei defnyddio yn eu hymarfer. Mae ymwybyddiaeth eang o effaith amgylcheddol ymyriadau clinigol yn hollbwysig i wrthdroi ôl troed carbon gwasanaethau gofal iechyd.

Argymhellir yn gryf bod egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy yn cael eu mabwysiadu a'u hyrwyddo wrth ddarparu hyfforddiant clinigol, fel bod staff yn cael eu haddysgu a'u hatgoffa'n rheolaidd o effaith gofal iechyd ar yr hinsawdd. Mae pob ymarferydd sy'n datblygu ac yn cyflwyno deunyddiau addysgol i staff nyrsio yn cael eu hannog i gynnwys elfen amgylcheddol ym mhob sesiwn hyfforddi. Bydd hyn yn sicrhau bod staff yn gallu cynnwys ystyriaethau amgylcheddol yn ystod ymarferion hybu iechyd ac yn grymuso cleifion i reoli eu hiechyd eu hunain, gan gefnogi egwyddor 2 gofal iechyd cynaliadwy.

Gall enghreifftiau o hyn gynnwys:

- ✓ Cynnwys hyfforddiant sy'n annog staff i wneud yr hyn sy'n glinigol ofynnol yn unig. Mae hyn yn lleihau gwastraff clinigol ac yn gwella profiad y claf. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
  - cynnal ymchwiliadau clinigol dim ond pan fydd rheswm clinigol dros wneud hynny;
  - pibellu cleifion adran frys dim ond pan fydd rheswm clinigol dros wneud hynny;
  - lleihau ymyriadau clinigol "rhag ofn" yn unig.

- ✓ Cynnwys hyfforddiant sy'n annog staff i rymuso cleifion i hunanofalu, lle bo hynny'n glinigol-addas. Mae hyn yn cael effaith amgylcheddol fuddiol drwy leihau'r angen i gleifion fynd i apwyntiadau gofal iechyd. Dyma rai enghreifftiau:
  - addysgu cleifion i reoli eu cyflwr cronig;

   - cefnogi cleifion i reoli cymryd eu meddyginiaeth eu hunain, lle bo hynny'n addas.

- ✓ Cynnwys hyfforddiant sy'n tynnu sylw at feysydd sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd ac sy'n darparu strategaethau i osgoi hyn. Gall enghreifftiau gynnwys:
   - tynnu sylw at effaith amgylcheddol cynhyrchion ymataliaeth tafladwy ac annog y defnydd o gynhyrchion ymataliaeth golchadwy lle bo hynny'n glinigol-addas;
   - hyrwyddo'r defnydd darbodus o becynnau gweithdrefn glinigol i wneud y defnydd gorau o'u cynnwys a lleihau gwastraff;
   - pwysleisio effaith cyfarpar diogelu personol (PPE) ar yr amgylchedd a rhoi cyngor ymarferol ar sut y gall staff leihau'r defnydd o PPE diangen.

## Ailddilysu NMC

Mae rheoleiddio proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd gan yr NMC yn nodi bod angen i'r rhai sydd wedi cofrestru fynd trwy'r broses ailddilysu bob tair blynedd. Yn ddiweddar, mae'r NMC wedi cyhoeddi eu bwriad i ystyried cynnwys ysgogiadau cynaliadwyedd amgylcheddol fel rhan o ofynion ymarfer myfyriol y broses ailddilysu. Mae hyn yn rhan o'u cynllun cynaliadwyedd amgylcheddol.

Argymhellir bod y rhai sydd wedi cofrestru yn dangos eu hymrwymiad i ddarparu gofal iechyd cynaliadwy trwy eu myfyrdodau fel rhan o'u proses ailddilysu NMC. Mae'r broses ailddilysu yn cynnig cyfle unigryw iddynt fyfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y tair blynedd flaenorol ac i archwilio eu profiadau yn ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol gyda'r sawl sy'n cadarnhau eu gwaith.

Gall enghreifftiau o hyn gynnwys:

- ✓ Datganiad myfyriol ar fentrau cynaliadwy mae'r cofrestrydd wedi'u cynnal;
- ✓ Cynnwys ystyriaethau amgylcheddol yn y profiadau y mae'r sawl sydd wedi cofrestru yn myfyrio arnynt – er enghraifft, faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan weithdrefn glinigol benodol, sut mae modd gwella gwasanaethau i leihau'r angen i deithio etc.;
- ✓ Datganiad myfyriol o sut mae'r sawl sydd wedi cofrestru wedi ymgorffori'r pedair egwyddor gofal iechyd cynaliadwy yn ei ddarpariaeth gofal bob dydd.

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Mae nyrsys a bydwragedd yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gofal iechyd yn ehangach o fewn GIG Cymru. Mae'r [Coleg Nyrsio Brenhinol] yn disgrifio pedair colofn ymarfer nyrsio - ymarfer clinigol, addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth – sy'n hollbwysig o ran cefnogi'r rôl eang a hanfodol mae'r proffesiynau nyrsio yn ei chyflawni yn y system iechyd.

Er mwyn cefnogi gwaith hanfodol nyrsys a bydwragedd ledled Cymru, mae amryw o brosesau'n sail i ansawdd a diogelwch ymarfer nyrsio, gan ffurfio rhan o fframwaith llywodraethu clinigol. Mae gan y fframwaith hwn o brosesau allu unigryw i feithrin arferion gofal iechyd cynaliadwy trwy roi cynaliadwyedd wrth wraidd eu swyddogaeth graidd.

Bydd yr adran hon yn darparu rhai enghreifftiau o sut y gall sefydliadau ymgorffori egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy yn y prosesau hyn. Fodd bynnag, anogir sefydliadau a gwasanaethau i ystyried sut y gall yr agenda llywodraethu clinigol ehangach gefnogi, a dathlu, darparu gofal cynaliadwy.

### Cynlluniau achredu clinigol

Mae’r rhan fwyaf o Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ledled Cymru yn defnyddio cynlluniau achredu clinigol fel dull o gydnabod arferion da mewn lleoliad clinigol. Mae'r cynlluniau hyn fel arfer yn cynnig amrywiaeth o fetrigau rhagosodedig y mae angen i feysydd clinigol eu bodloni er mwyn sicrhau achrediad. Mae'r metrigau hyn yn amrywio o sefydliad i sefydliad, ond maen nhw’n canolbwyntio'n bennaf ar agweddau clinigol gan gynnwys mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMS), mesurau profiad a adroddir gan gleifion (PREMS), archwiliadau dogfen, canlyniadau archwilio clinigol etc.

Mae'r cynlluniau hyn yn gyfle i feysydd clinigol ddangos tystiolaeth o'u hymdrechion i leihau eu heffaith amgylcheddol gan ddefnyddio'r cofeiriau **arbed, ailddefnyddio, ailgylchu.**

Gallai enghreifftiau o’r fath gynnwys:

- ✓ Strategaethau lleihau gwastraff sy'n dangos gostyngiad mesuradwy yn y gwastraff a gynhyrchir gan y maes clinigol, gan gynnwys defnydd gwell o stoc glinigol;
- ✓ Mentrau sy'n lleihau’r angen i staff neu gleifion deithio;
- ✓ Tystiolaeth o leihau plastigau untro yn y maes clinigol;
- ✓ Cynlluniau sy'n ceisio ailbwrpasu ac ailddefnyddio offer clinigol, lle bo hynny'n ddiogel ac yn glinigol-briodol;
- ✓ Ailgylchu gwastraff a fyddai fel arfer yn cael ei waredu gan ddefnyddio dulliau traddodiadol.

Argymhellir bod rhaid i feysydd clinigol allu dangos eu hymrwymiad i ofal iechyd cynaliadwy er mwyn cyflawni'r lefelau achrediad uwch, a dangos gwelliant yn eu heffaith amgylcheddol.

## Methodoleg gwella ansawdd (QI)

Mae gwella ansawdd yn ddull o wella'r gwasanaethau a ddarperir yn GIG Cymru ac fe'i gwneir yn rheolaidd. Mae nifer o fframweithiau gwella ansawdd yn cael eu defnyddio ar draws y GIG, y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio fersiwn o'r cylch PDSA (Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu) i ysgogi gwelliannau ailadroddol. Mae llawer o fentrau gwella ansawdd yn cefnogi egwyddor 1 (atal afiechyd), egwyddor 2 (hunanofal cleifion) ac egwyddor 3 (llwybrau gofal darbodus) gofal iechyd cynaliadwy, ond mae pobl yn aml yn anghofio am hyn fel rhan o'r cylch PDSA.

Mae cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol fel elfen graidd o brosesau gwella ansawdd yn sicrhau nad yw cynaliadwyedd yn cael ei anwybyddu ac yn rhoi cyfle i amlygu a dathlu cynnydd yn y maes hwn. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod newidiadau mewn ymarfer yn ategu uchelgais sero-net GIG Cymru.

Mae cynnwys cynaliadwyedd fel rhan annatod o wella ansawdd yn darparu fframwaith strwythuredig, adnabyddadwy er mwyn i staff allu cyflwyno ymddygiad gwyrdd i ymarfer clinigol. Drwy fod yn ystyriaeth graidd, bydd hyn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o effaith amgylcheddol y gwasanaethau a ddarparwn a'r angen i weithredu mewn camau bach, mesuradwy.

Gallwn sicrhau bod mentrau gwella ansawdd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol trwy:

- ✓ Cydnabod a gwerthfawrogi cynaliadwyedd amgylcheddol fel parth ansawdd;
- ✓ Gwella gallu drwy gynnwys cynaliadwyedd fel egwyddor ym mhob lefel ar hyfforddiant gwella ansawdd;
- ✓ Cynnwys mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol fel metrig penodol yng nghamau cynllunio a gwerthuso pob menter gwella ansawdd arfaethedig;
- ✓ Mabwysiadu egwyddorion pecynnau cymorth gwella ansawdd gofal iechyd cynaliadwy presennol (megis fframwaith SusQI) mewn prosesau sefydliadol;
- ✓ Cyfathrebu'r effaith trwy ymgorffori dulliau cyfathrebu QI.

## Asesiadau o'r effaith amgylcheddol

Mae polisïau clinigol yn helpu i lywio, arwain a monitro safonau darparu gofal GIG Cymru. O'r herwydd, maen nhw'n cynnig cyfle unigryw i ystyried effaith darparu gofal ac annog strategaethau i leihau ôl troed carbon gwasanaethau.

Argymhellir bod cynaliadwyedd yn cael ei ystyried yn rhan greiddiol o bolisi clinigol trwy ddefnyddio asesiadau o'r effaith amgylcheddol. Mae defnyddio asesiadau o' effaith amgylcheddol yn rhoi'r gallu i'r awdur amlinellu sut y bydd y polisi clinigol yn

effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y sefydliad a sut y gellir lliniaru hyn. Mae cynnwys asesiad o’r effaith amgylcheddol yn caniatáu i sefydliadau fod yn wybodus am effeithiau hinsawdd ardaloedd clinigol a chefnogi gwneud penderfyniadau, yn enwedig o ran strategaethau lliniaru.

Mae enghreifftiau o feysydd y gellir eu hamlygu fel rhan o asesiad o'r effaith amgylcheddol fel a ganlyn:

- ✓ Nodi polisïau sy'n gofyn i staff neu gleifion deithio neu beidio;
- ✓ Tynnu sylw at feysydd sy'n cynhyrchu cryn dipyn o wastraff clinigol, neu i'r gwrthwyneb yn gallu lleihau gwastraff clinigol;
- ✓ Polisïau sy'n effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y defnydd o adnoddau, yn enwedig plastigau neu ddeunyddiau untro na ellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu.

## Sut rydym ni'n gwneud hyn

Mae angen cryn dipyn o adnoddau ffisegol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r adnoddau hyn yn amrywio o'r ystod eang o gyflenwadau clinigol rydym ni’n eu defnyddio i ddarparu gofal (fel cyfarpar diogelu personol, chwistrellau, pecynnau aseptig etc) i'r logisteg gymhleth sy'n gysylltiedig â darparu'r nwyddau hyn i wasanaethau clinigol.

Mae angen ystyried nifer eang iawn o elfennau er mwyn sicrhau darpariaeth gofal cynaliadwy, yn benodol effaith amgylcheddol:

1. Cadwyn gyflenwi caffael yr offer a'r cyflenwadau a ddefnyddiwn;
2. Gwaredu gwastraff;
3. Yr ynni mae ein hadeiladau/ystadau yn ei ddefnyddio;
4. Cleifion neu staff yn teithio ar gyfer gwasanaethau gofal.

Bydd sicrhau bod gwasanaethau'n cadw’r uchod mewn cof wrth gynllunio a darparu gofal clinigol yn sicrhau bod egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy yn cael eu cymhwyso i'r cyfranwyr carbon mwyaf yn GIG Cymru.

Bydd yr adran hon yn rhoi enghreifftiau o sut y gall nyrsys a bydwragedd gefnogi camau gweithredu yn y maes hwn. Bydd gan eich sefydliad gynlluniau presennol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, ond gall gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth wneud cyfraniad gwerthfawr drwy fabwysiadu peth o'r canllawiau yn yr adran hon, a mynd ymhellach drwy ystyried effaith ehangach y ffordd rydym ni’n darparu ein gwasanaethau.



## Caffael cyflenwadau clinigol

Caffael nwyddau i GIG Cymru a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig â hynny sy’n cyfrannu fwyaf at ôl troed carbon y GIG. Felly, mae'n bwysig bod holl staff GIG Cymru yn deall effaith caffael eitemau i'w defnyddio yn GIG Cymru ar lefelau carbon, fel bod pawb yn ymdrechu ar y cyd i leihau'r effaith hon. Mae caffael o fewn GIG Cymru yn cael ei ddarparu ar y cyd â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sy'n cefnogi'r gweithgarwch hwn o fewn sefydliadau GIG Cymru. Fel rhan o'r trefniant partneriaeth

hwn, mae sefydliadau GIG Cymru yn cael cymorth rhwydwaith o nyrsys caffael sy'n cynghori ac yn cefnogi gweithgarwch caffael o fewn byrddau iechyd.

Awgrymir y gallai staff clinigol GIG Cymru helpu i leihau allyriadau cysylltiedig â chaffael drwy:

- ✓ Caffael cyflenwadau sydd eu hangen yn unig, a dim ond y nifer y gellir ei ddefnyddio cyn i ddyddiad defnyddio'r cynnyrch ddod i ben;
- ✓ Sicrhau bod mesurau cynaliadwy yn rhan o fanyleb dogfen gaffael i'r diwydiant;
- ✓ Sicrhau bod effaith carbon yn cael ei hystyried wrth ddewis darparwyr ar gyfer cynnyrch penodol;
- ✓ Gweithio ochr yn ochr â nyrsys caffael NWSSP i gefnogi caffael gwyrdd.

## Rheoli stoc yn gynaliadwy

Mae'n hollbwysig rheoli stoc glinigol yn effeithiol er mwyn lleihau gwastraff yn GIG Cymru. Mae'r cyflenwadau rydym ni'n eu prynu i'w defnyddio ar draws GIG Cymru yn adnodd gwerthfawr, ac mae'n rhaid i ni gynllunio'r defnydd o'r cynhyrchion hyn er mwyn lleihau'r risg y byddant yn cael eu gwastraffu cyn i'r dyddiad defnyddio ddod i ben, a lleihau'r risg o orstocio.

Mae arferion gorau yn dechrau cyn archebu offer/cyfarpar, lle dylid ceisio chwilio am adnoddau presennol a'u defnyddio cyn dod â chyflenwadau newydd i mewn. Dylai sefydliadau archwilio sut i wneud hyn yn hawdd i staff, fel mai'r dulliau mwyaf ecogyfeillgar o gael stoc sydd hefyd fwyaf cyfleus.

Mae angen systemau rheoli stoc da i sicrhau bod meysydd clinigol yn cael cymorth i reoli eu cyflenwadau'n dda. Mae hyn yn cynnwys mannau storio taclus, hygyrch lle mae'r stoc yn cael ei gylchdroi i sicrhau taw'r cyflenwadau sydd ar fin darfod sy'n cael eu defnyddio'n gyntaf.

Rhaid ystyried creu mecanweithiau cadarn sy'n helpu meysydd clinigol i ailddosbarthu'r stoc yn hawdd os bydd gormod o gyflenwadau ar fin dod i ben. Dylid annog meysydd clinigol i rannu adnoddau fel arfer gorau.

Yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol cadarnhaol, bydd rheoli stoc yn dda hefyd yn arbed arian i sefydliadau.

Rydym ni'n argymell:

- ✓ Bod storio stoc a chylchdroi stoc yn rhan annatod o'r drefn arferol yn eich maes clinigol.
- ✓ Bod stoc na ellir ei defnyddio cyn y 'dyddiad defnyddio olaf' yn cael ei gynnig i feysydd a fydd yn gallu ei ddefnyddio.
- ✓ Bod prosesau rheoli stoc yn cael eu hadolygu a'u cyfuno ar draws sefydliadau i ddarparu dull cyson o weithredu;

- ✓ Bod prosesau rheoli stoc yn cynnwys mecanweithiau i gylchdroi stoc yn effeithiol a chynnig atebion lleihau gwastraff trwy atebion cymeradwy fel Warp It;
- ✓ Bod staff yn chwilio am adnoddau o fewn y sefydliad cyn prynu cyflenwadau clinigol newydd;
- ✓ Bod unrhyw gyflenwadau clinigol dros ben yn cael eu defnyddio gan y sefydliad cyn cael eu gwaredu.

## Gweithio rhithwir

Gall defnyddio technoleg ddigidol leihau allyriadau carbon, yn enwedig pan fydd technoleg yn lleihau'r angen i staff neu gleifion deithio. Yn sgil pandemig COVID-19, roedd rhaid cael newid cyflym mewn diwylliant i ddechrau defnyddio apwyntiadau o bell ac mae hyn wedi helpu gwasanaethau clinigol i fabwysiadu technoleg fel rhan o'u darpariaeth gofal.

Er nad yw pob ymgynghoriad clinigol yn addas i'w gynnal o bell, mae technoleg yn dal i chwarae rhan wrth gefnogi cyfran sylweddol o ymgynghoriadau a fyddai fel arall yn gofyn am deithio i leoliad. Gallai lleihau'r angen i deithio gynnig cyfle i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gan fod teithio yn un o gyfranwyr sylweddol allyriadau GIG Cymru.

Ar ben hynny, mae cyfarfodydd rhithwir yn fwyfwy cyffredin mewn amgylcheddau gofal iechyd a, lle bo'n briodol, dylent fod yn ystyriaeth gyntaf cyn ystyried cyfarfod wyneb yn wyneb y mae angen i fynychwyr deithio iddo. Bydd y gostyngiad hwn yn yr angen i deithio i leoliad yn cyfrannu at gronni osgoi teithio, a fydd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at leihau ôl troed carbon GIG Cymru.

Er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd gweithio rhithwir, argymhellir:

- ✓ Bod meysydd clinigol sy'n gallu cynnal ymgynghoriadau o bell yn cael eu galluogi'n ddigidol i wneud hynny;
- ✓ Bod ymarferoldeb cyflwyno ymgynghoriadau o bell yn cael ei ystyried a'i brofi mewn gwasanaethau sy'n addas yn glinigol;
- ✓ Bod effaith ymgynghoriadau o bell yn cael ei mesur a'i chofnodi fel rhan o'r strategaeth cynaliadwyedd sefydliadol;
- ✓ Ar gyfer cyfarfodydd anghlinigol, cymerir dull "rhithwir yn gyntaf" lle bynnag y bo hynny'n addas.

## Crynodeb

Dyluniwyd y strategaethau doeth o ran hinsawdd hyn gyda chi mewn golwg, er mwyn eich helpu chi a'ch arweinwyr i gyfrannu at leihau effeithiau niweidiol newid hinsawdd yn eich gwaith bob dydd. Dyma ddechrau ein taith fel proffesiwn sy'n graff dros yr hinsawdd ac mae'n awgrymu dulliau cychwynnol i'ch rhoi chi ar ben ffordd.

Gallwch gysylltu â ni yn QualityAndNursing@llyw.cymru os oes angen cymorth pellach arnoch neu os hoffech drafod unrhyw un o'r strategaethau a amlinellir, neu os oes gennych unrhyw gyfraniadau at fersiynau eraill o'r ddogfen hon yn y dyfodol. Ein nod yw cynnal dogfen waith ddeinamig a byddwn yn ei hadolygu a'i hailwampio yn unol â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021 - 2030).